



**Cyfoeth  
Naturiol**  
Cymru  
**Natural  
Resources**  
Wales

# Adroddiad Ymchwil Llifogydd: Llifogydd Llanrwst Rhagfyr 2015

Adroddiad Terfynol Mehefin 2016



**Cyfoeth  
Naturiol**  
Cymru  
**Natural  
Resources**  
Wales

Our purpose is to ensure that the natural resources of Wales are sustainably maintained, used and enhanced, now and in the future.

We work for the communities of Wales to protect people and their homes as much as possible from environmental incidents like flooding and pollution. We provide opportunities for people to learn, use and benefit from Wales' natural resources.

We work to support Wales' economy by enabling the sustainable use of natural resources to support jobs and enterprise. We help businesses and developers to understand and consider environmental limits when they make important decisions.

We work to maintain and improve the quality of the environment for everyone and we work towards making the environment and our natural resources more resilient to climate change and other pressures.

Ein pwrpas yw sicrhau bod adnoddau naturiol Cymru yn cael eu cynnal, eu defnyddio a'u gwella mewn modd cynaliadwy, yn awr ac yn y dyfodol.

Rydym yn gweithio dros gymunedau Cymru i amddiffyn pobl a'u cartrefi gymaint â phosibl rhag digwyddiadau amgylcheddol megis llifogydd a llygredd. Rydym yn darparu cyfleoedd i bobl ddysgu, defnyddio a chael budd o adnoddau naturiol Cymru.

Rydym yn gweithio i gefnogi economi Cymru drwy alluogi defnyddio adnoddau naturiol yn gynaliadwy i gynnal swyddi a menter. Rydym yn helpu busnesau a datblygwyr i ddeall ac i ystyried cyfyngiadau amgylcheddol wrth iddynt wneud penderfyniadau pwysig.

Rydym yn gweithio i gynnal ac i wella ansawdd yr amgylchedd i bawb ac rydym yn gweithio tuag at wneud yr amgylchedd a'r adnoddau naturiol yn fwy gwydn yn wyneb newid yn yr hinsawdd a phwysau eraill.

Cyhoeddwyd gan:  
Cyfoeth Naturiol Cymru  
Tŷ Cambria  
29 Ffordd Casnewydd  
Caerdydd  
CF24 0TP

0300 065 3000 (Llun-Gwe, 8am - 6pm)

[enquiries@naturalresourceswales.gov.uk](mailto:enquiries@naturalresourceswales.gov.uk)  
[www.naturalresourceswales.gov.uk](http://www.naturalresourceswales.gov.uk)

© Cyfoeth Naturiol Cymru

[www.cyfoethnaturiol.cymru](http://www.cyfoethnaturiol.cymru)

Tudalen 2 o 26



Cedwir pob hawl. Gellir atgynhyrchu'r ddogfen hon gyda chaniatâd ymlaen llaw gan Cyfoeth Naturiol Cymru

**Adroddiad Ymchwiliad Llifogydd**

<i>Ysgrifennwyd gan</i>	<i>Enw Richard Weston</i>	<i>Swydd Arweinydd Tîm Dadansoddi Perygl Llifogydd</i>	<i>Dyddiad 23 Chwefror 2016</i>
<i>Cymeradwywyd gan</i>	<i>Enw Keith Ivens</i>	<i>Swydd Rheolwr Gweithrediadau, Perygl Llifogydd a Rheoli Adnoddau Dŵr</i>	<i>04 Mawrth 2016</i>
<i>Cymeradwywyd y Cynllun Gweithredu gan</i>	<i>Enw Keith Ivens</i>	<i>Swydd Rheolwr Gweithrediadau, Perygl Llifogydd a Rheoli Adnoddau Dŵr</i>	<i>Mehafin 2016</i>

**Cynnwys**

Crynodeb Gweithredol ..... 4

Cyflwyniad ..... 5

Lleoliad ..... 6

Cynllun Lliniaru Llifogydd ..... 6

Rhagolygon a Rhybuddion ..... 9

Llifogydd 26 Rhagfyr ..... 9

Gweithdrefn weithredol CNC yn Llanrwst ..... 12

Ymateb Gweithredol CNC ..... 13

Casgliad ..... 16

Argymhellion a Gwersi a Ddysgwyd ..... 17

Geirfa ..... 19

Atodiad 1 ..... 20

    Tabl Crynodeb ..... 20

Atodiad 2 - Argymhellion - Statws cynnydd ..... 21

    Allwedd i Dabl 1 ..... 21

**Rhestr Ffigurau**

Ffigur 1 – Map Lleoliad ..... 6

Ffigur 2 – Amddiffynfeydd Presennol ..... 7

Ffigur 3 – Muriâu Llifogydd o flaen eiddo ..... 7

Ffigur 4 – Amddiffynfa Rhag Llifogydd Symudol Teras Conwy ..... 8

Ffigur 5 – Mur Llifogydd / Adeilad sy'n Gwrthsefyll Dŵr ..... 8



## Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn edrych ar berfformiad cynllun lliniaru llifogydd Llanrwst yn ystod y llifogydd a ddigwyddodd ar 26 Rhagfyr 2015.

Roedd natur a graddfa'r llifogydd ledled Gogledd Cymru yn sylweddol. Mae amcangyfrifon yn awgrymu bod dros 100 eiddo wedi dioddef rhyw fath o lifogydd mewnol mewn dros 40 o gymunedau, yn enwedig yng Ngwynedd, Conwy ac Ynys Môn.

O fewn Dyffryn Conwy, roedd lefelau'r afon a natur estynedig y digwyddiad yn golygu mai dyma'r llifogydd gwaethaf a welwyd ers dros 30 mlynedd.

Adeiladwyd y cynllun lliniaru llifogydd yn 2009/10 fel rhan o gynllun ehangach i Ddyffryn Conwy, ac roedd hefyd yn cynnwys Trefriw. Costiodd y cynllun oddeutu £7 miliwn ac fe'i hariannwyd gan Lywodraeth Cymru. Yn Llanrwst, fe'i cynlluniwyd i amddiffyn hyd at 76 eiddo.

Yn ystod digwyddiad Gŵyl San Steffan, perfformiodd y cynllun fel y disgwyl gan amddiffyn y rhan fwyaf o'r eiddo hyn; roedd rhai ohonynt wedi dioddef llifogydd yn 2004 a 2005.

Er gwaethaf hyn, roedd y ffaith nad oedd amddiffynfeydd rhag llifogydd symudol wedi'u gosod yn gyflawn yn golygu bod 3 eiddo wedi dioddef llifogydd yn Nheras Conwy oherwydd bod dŵr yn sefyll ar y ffordd gerllaw. Ni ellir cadarnhau'n llawn beth oedd tarddiad y dŵr sefyll hwn, ond mae'n debygol ei fod yn gyfuniad o ddraeniau gorlawn, dŵr wyneb a llifddwr o'r afon.

Roedd y gwaith o osod yr amddiffynfeydd ar draws Teras Conwy wedi dechrau, ond daeth i ben gan fod afon Conwy wedi cyrraedd ei phenllanw. O ganlyniad, nid oeddynt wedi'u gosod mewn pryd i amddiffyn y 3 eiddo a ddiodeffodd llifogydd.

Petai'r llifogydd wedi parhau i waethygu, byddai'r gwaith o osod amddiffynfeydd rhag llifogydd symudol yn Nheras Conwy wedi parhau, a byddai amddiffynfeydd yr A470 wedi'u gosod yn ôl yr angen.



## Cyflwyniad

Lluniwyd yr adroddiad hwn fel ymchwiliad cychwynnol i berfformiad cynllun lliniaru llifogydd Llanrwst yn ystod y llifogydd sylweddol a welwyd ar Wyl San Steffan, Rhagfyr 2015. Mae'n ymdrin yn unig â'r ardal o amgylch yr amddiffynfeydd ffurfiol gerllaw Bont Fawr. Cynhelir ymchwiliadau eraill i ardaloedd eraill a Dyffryn Conwy ehangach yn ôl yr angen, pan fydd ymarfer modelu hydrologig manwl wedi dod i ben.

Adeiladwyd y Cynllun Lliniaru Llifogydd (FAS) yn 2009/10 o ganlyniad i lifogydd a ddigwyddodd ynghynt yn 2004 a 2005, lle roedd dros 40 o gartrefi a busnesau wedi dioddef o'r llifogydd bob tro. Fe'u cwblhawyd fel rhan o gynllun ehangach a oedd yn ymdrin â lleoliadau eraill yn Nyffryn Conwy, gan gynnwys Trefriw.

Yn ystod digwyddiad Gŵyl San Steffan, roedd dalgylch Conwy wedi profi cryn dipyn o lawiad, a'r dalgylch eisoes yn wlyb iawn. O ganlyniad, cofnododd ein mesurydd lefel ail uchaf yr afon yng Nghwmlanerch (ychydig bach yn is na'r lefel uchaf erioed). Cofnododd mesurydd glaw y Swyddfa Dywydd yng Nghapel Curig lawiad o 210mm ar gyfer Diwrnod Nadolig a Gŵyl San Steffan. Roedd cyfanswm glawiad mis Rhagfyr oddeutu 330% yn uwch na'r cyfartaledd misol tymor hir i Ragfyr.

Mae dadansoddiad cychwynnol yn awgrymu yn mai dyma un o'r llifogydd mwyaf sylweddol yn Nyffryn Conwy mewn o leiaf 30 mlynedd. Seiliwyd hyn ar ddadansoddiad o lefelau uchaf afonydd, cyfaint y llifddwr a hyd yr amser y bu'r gorlifdir dan ddŵr.

Ar y cyfan, gweithiodd y Cynllun Lliniaru Llifogydd yn dda iawn gan amddiffyn y mwyafrif o'r adeiladau a ddioddefodd lifogydd yn 2004 a 2005. Er hynny, roedd problemau ynghylch yr amddiffynfeydd rhag llifogydd symudol, sy'n croesi Teras Conwy, ac sy'n amddiffyn eiddo yn y cyffiniau.

Mae'r ymchwiliad hwn wedi adolygu gweithrediad yr amddiffynfeydd parhaol a'r problemau ynghylch gosod yr amddiffynfeydd rhag llifogydd symudol.



## Lleoliad

Lleolir Llanrwst ar lannau Afon Conwy, oddeutu 20km i'r de o Dref Conwy a cheg Aber Conwy.



Ffigur 1 – Map Lleoliad

## Cynllun Lliniaru Llifogydd


Lluniwyd y Cynllun Lliniaru Llifogydd yn 2009/10 yn dilyn astudiaeth eang i ddichonoldeb gwahanol opsiynau. Roedd yr opsiwn a ddewiswyd i Lanrwst yn cynnwys cyfuniad o furiau llifogydd, manau arllwys is ar argloddiau amaethyddol gerllaw ac amddiffynfeydd rhag llifogydd symudol.

Mae rhannau'r argloddiau amaethyddol oedd wedi'u gostwng yn golygu lleihad sylweddol yn uchafbwynt lefel y dŵr a ddisgwylir yn Afon Conwy, gerllaw Llanrwst, yn ystod llifogydd mawr. Mae'r manau arllwys yn parhau i olygu amddiffyniad i'r tir ffermio tu cefn yn ystod llifogydd llai, ond maent yn gadael i lifddwr lifo drostynt yn ystod llifogydd a allai effeithio ar Lanrwst. Cafodd amddiffyniadau rhag llifogydd symudol eu cynnwys yn y cynllunio i atal lifddwr a dŵr wyneb o'r A470 rhag gorlifo'r ardal o amgylch Teras Conwy a Stryd y Bont. Mae'r lleihad yn uchafbwynt lefel yr afon ynghyd â'r muriau llifogydd parhaol a'r amddiffynfeydd rhag llifogydd symudol yn darparu lefel safonol o amddiffyniad i Lanrwst rhag llifogydd gyda siawns 1 mewn 200 o ddigwydd mewn unrhyw flwyddyn. Mae 76 eiddo yn cael eu hamddiffyn mewn digwyddiad o'r fath.




Costiodd y cynllun oddeutu £7 miliwn ac fe'i hariannwyd gyda chymorth Grant Amddiffyn rhag Llifogydd Llywodraeth Cymru.

Mae Ffigur 2 isod yn dangos trefniant y muriau llifogydd a'r amddiffynfeydd rhag llifogydd symudol yn Llanrwst.



**Ffigur 2 – Amddiffynfeydd Presennol**



**Ffigur 3 – Muriau llifogydd o flaen eiddo**



Ffigur 4 – Amddiffynfa Rhag Llifogydd Symudol Teras Conwy



Ffigur 5 – Mur llifogydd / Adeilad sy'n Gwrthsefyll Dŵr





## Rhagolygon a Rhybuddion

Yn y cyfnod yn arwain at y digwyddiad, cyhoeddodd y Swyddfa Dywydd 'rybuddion o law trwm' i Gonwy ar Noswyl Nadolig a Diwrnod Nadolig, gam awgrymu y gallai cyfanswm y glawiad i'r cyfnod, Diwrnod Nadolig a Gŵyl San Steffan, fod cymaint â 120 i 150mm. Fodd bynnag, cyhoeddwyd y rhain gyda Hyder Isel.

Roedd yr holl ragolygon a'r wybodaeth arall a dderbyniwyd ar Noswyl Nadolig a Diwrnod Nadolig yn awgrymu y byddai'n gyfnod gwlyb iawn, ond dim i awgrymu y byddai'n ddigwyddiad eithafol o ran glawiad.

Ar Fore 26 Rhagfyr, gwaethygodd y rhagolygon. Oherwydd hyn, roedd y 'Datganiad Arweinid ar Llifogydd' a gyhoeddwyd gan y Ganolfan Rhagolygon Llifogydd yn lliw 'Oren'. Roedd hyn yn tynnu sylw at debygoliaeth GYMEDROL o effeithiau sylweddol dŵr wyneb a llifogydd afonydd i siroedd Dinbych a Chonwy. Roedd hyn yn ysgogi Telecon rhwng Ymatebwyr Categori 1 (Heddlu, Gwasanaeth Tân, CNC, Awdurdodau Lleol a phartneriaid proffesiynol eraill).

Nid oedd model Rhagolygon Llifogydd CNC, sy'n defnyddio data rhagolygon glawiad y Swyddfa Dywydd ac sy'n darogan lefelau uchaf afonydd am 36 awr i'r dyfodol, ychwaith yn dangos lefelau afon sylweddol cyn bore 26 Rhagfyr.

Fel rhan o'r broses monitro barhaus, roedd gan CNC staff ar rota ar alwad 24 awr. Cyhoeddwyd Rhybuddion Llifogydd i Ddyffryn Conwy am 4.30pm ar Ddiwrnod Nadolig, yn seiliedig ar yr amodau a throthwyon penodedig.

## Llifogydd 26 Rhagfyr

Roedd y llifogydd ar 26 Rhagfyr yn eang, gan effeithio ar nifer fawr o gymunedau, yn bennaf yng Ngogledd Cymru. Mae amcangyfrifon yn awgrymu bod dros 100 eiddo wedi dioddef llifogydd mewnol mewn dros 40 o gymunedau. Mae hyn yn arwydd o raddfa a natur ddifrifol y problemau o ran llifogydd yng Ngwynedd, Conwy ac Ynys Môn.

Yn ystod digwyddiad Gŵyl San Steffan, roedd dalgylch Conwy wedi profi cryn dipyn o lawiad, a'r dalgylch eisoes yn wlyb iawn. Cofnododd mesurydd glaw y Swyddfa Dywydd yng Nghapel Curig lawiad o 210mm ar gyfer Diwrnod Nadolig a Gŵyl San Steffan gyda chyfanswm i Ragfyr ar ei hyd (hyd at 28 Rhagfyr) o 1012mm. Roedd cyfanswm glawiad mis Rhagfyr oddeutu 330% yn uwch na'r cyfartaledd misol tymor hir i Ragfyr.

Cofnododd ein mesurydd ail lefel uchaf yr afon yng Nghwmlanerch (ychydig bach yn is na'r lefel uchaf erioed).



O fewn Dyffryn Conwy, roedd lefelau Afon Conwy yr ail uchaf a gofnodwyd erioed yng ngorsaf fesur Cwmlanerch (mae'r record yn ymestyn nôl i 1964, ac roedd y lefelau hyn ond 2mm yn is na'r lefelau uchaf a gofnodwyd yn 2009). Fodd bynnag, gan fod yr afon wedi parhau i fod yn uchel am gyfnod hir gyda chyfaint sylweddol o ddŵr, gellir dweud mai dyma'r llifogydd gwaethaf a brofwyd mewn o leiaf 30 mlynedd.

Roedd Afon Conwy ar ei huchaf am 11.00am yng Nghwmlanerch gan gyrraedd lefel o 11.589mAOD. Yn y mesurydd ym Mhont Fawr, roedd ar ei huchaf am 12:00pm ar lefel o 8.380mAOD. Arhosodd y lefel ym Mhont Fawr yn agos i'r uchafbwynt hwn (uwchlaw 8.3mAOD) am gyfnod estynedig, sef 10:30am i 1:15pm.

Cynlluniwyd y Cynllun Lliniaru Llifogydd i amddiffyn 76 eiddo, yn Llanrwst. Er nad oes cyfnod dychwelyd wedi'i neilltuo i'r digwyddiad, roedd y cynllun wedi amddiffyn eiddo a fyddai wedi dioddef llifogydd yn 2004 a 2005.

Er gwaethaf hyn, roedd y ffaith nad oedd amddiffynfeydd rhag llifogydd symudol wedi'u gosod yn gyflawn yn golygu bod 3 eiddo wedi dioddef llifogydd yn Nheras Conwys oherwydd bod dŵr yn sefyll ar y ffordd gerllaw. Gwaethygydd y llifogydd gan donau a grëwyd dan geir yn gyrru drwy'r dŵr. Ni ellir cadarnhau'n llawn beth oedd tarddiad y dŵr sefyll hwn, ond mae'n debygol ei fod yn gyfuniad o ddraeniau gorllawn, dŵr wyneb a llifogydd o'r afon.

Roedd un eiddo (Rhif 1 Teras Conwy) wedi gosod amddiffynfa rhag llifogydd eu hunain wrth y drws ffrynt, a bu hyn yn ddigon i rwystro'r dŵr rhag cael mynediad i'r eiddo.

Mae ffigur 6 isod yn dangos yn fras yr ardal a ddioddefodd o'r llifogydd o fewn Teras Conwy a'r ardal gyfagos:



**Ffigur 6 - Amlinelliad o'r Ilifogydd**



## Gweithdrefn weithredol CNC yn Llanrwst

Staff ar ddyletswydd ar rota 24 awr sy'n ymgymryd ag ymateb gweithredol CNC allan o oriau. Mae yna 3 prif rôl:

- Swyddog Dyletswydd Rhybudd Llifogydd (FWDO) – yn gyfrifol am fonitro lefelau afonydd a chyhoeddi rhybuddion llifogydd.
- Swyddog Dyletswydd Digwyddiad Llifogydd (FIDO) – yn gyfrifol am gydlynu'r ymateb gweithredol a rhoi gweithdrefnau gweithredol ar waith.
- Swyddog Dyletswydd Digwyddiad Llifogydd Cynorthwyol (AFIDO) – yn gyfrifol am gydlynu staff sy'n cyflenwi gweithrediadau ar safle.

Yn ychwanegol at y rhain, mae 2 rôl arall yn dod i'r amlwg yn ystod digwyddiadau llifogydd, sef:

- Rheolwr Safle – swyddog dynodedig, wedi'i hyfforddi o dîm Cyflenwi Gweithrediadau CNC.
- Swyddog Cyswllt Efydd – swyddog dynodedig, wedi'i hyfforddi o un o'r timau Rheoli Risg Llifogydd. Mae'r swyddog hwn yn gofalu am y Blaen Safle Gorchymyn.

Nid yw'r rolau hyn yn rhan o rota dyletswydd. Mae staff priodol yn cael eu neilltuo ar sail ad-hoc pan fydd eu hangen.

Rhestrir isod y tasgau ymateb gweithredol allweddol i Lanrwst:

- Cyhoeddi Rhybudd Llifogydd i Ddyffryn Conwy – Gosod Logiau Atal ger Llwybr Glanrafon
- Gosod pwmp yng Nghartref y Borth
- 8.14mAOD Larwm lefel afon ym Mhont Fawr – derbyn galwad larwm o'r Ganolfan Cyfathrebu Digwyddiadau (ICC)
- 8.14mAOD Ystyried Gosod Amddiffynfeydd Rhag Llifogydd Symudol yn Nheras Conwy (Anfon y rheolwr safle i Lanrwst i gwblhau'r rhestr wirio)
- 8.24mAOD Ystyried Gosod Amddiffynfeydd Rhag Llifogydd Symudol yn Nheras Conwy (Cwblhau'r Rhestr Wirio gyda'r rheolwr safle) a sefydlu blaen safle gorchymyn yng Nghanolfan Glastir (Adeilad y Cyngor), Swyddog Cyswllt Efydd i fod yn bresennol.
- 8.44mAOD Mae'n Rhaid Gosod Amddiffynfeydd Rhag Llifogydd Symudol yn Nheras Conwy
- 8.83mAOD Ystyried Gosod Amddiffynfeydd Rhag Llifogydd Symudol ar yr A470
- 9.03mAOD Mae'n Rhaid Gosod Amddiffynfeydd Rhag Llifogydd Symudol ar yr A470

Yn seiliedig ar y lefelau trothwy uchod, y logiau atal ger Llwybr Glanrafon sydd i'w gosod yn gyntaf, ac yna'r amddiffynfeydd rhag llifogydd symudol yn Nheras Conwy (Gan



gynnwys maes parcio i Rif 1). Yr amddiffynfeydd ar draws yr A470 fyddai'r rhai olaf i'w gosod.

Mae'r amddiffynfeydd rhag llifogydd symudol ynghyd â'r allweddi yn cael eu storio yng nghanolfan Tan Lan CNC o fewn Dyffryn Conwy, heb fod ymhell o Lanrwst.

Ers llunio'r cynllun lliniaru llifogydd, dyma'r tro cyntaf i'r trothwyon ar gyfer gosod yr amddiffynfeydd rhag llifogydd symudol gael eu croesi.

Mae'r 'Cynllun Ymateb Llifogydd Aml-Asiantaeth i Ddyffryn Conwy a'r Cyffiniau' yn ategu'r wybodaeth a'r ymateb uchod. Nod y cynllun hwn yw hwyluso ymateb aml-asiantaeth i lifogydd neu lifogydd posibl yn Nyffryn Conwy a'r cyffiniau.

## Ymateb Gweithredol CNC

Er mwyn ymchwilio i'r materion sy'n gysylltiedig â gosod yr amddiffynfeydd rhag llifogydd symudol, cynhaliwyd adolygiad o'r canlynol:

- Gweithdrefnau gweithredol CNC gan gynnwys lefelau cychwyn
- Y gweithredoedd a gynhaliwyd yn ystod y digwyddiad yn ôl Cofnodion Swyddog Dyletswydd
- Trafodaethau gyda Swyddogion Dyletswydd CNC
- Trafodaethau gyda Swyddogion Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Gwybodaeth a dderbyniwyd oddi wrth aelodau o'r gymuned yn ystod sesiwn galw heibio cyhoeddus ar 7 Ionawr.

Daeth y materion isod i'r amlwg:

Ni roddwyd 'Cynllun Ymateb Llifogydd Aml-Asiantaeth i Ddyffryn Conwy a'r Cyffiniau' ar waith, ac ni chafodd ei ddefnyddio ychwaith gan CNC neu Sefydliadau Partner sy'n cyfrannu.

Yn hanesyddol, roedd gweithdrefnau CNC yn cynnwys defnyddio pwmp yng Nghartref y Borth yn ystod llifogydd. Pwrpas pennaf y pwmp oedd lleihau lefelau dŵr ar yr A470. Ar ôl monitro'r defnydd ohono yn ystod llifogydd llai o faint, penderfynwyd dileu'r weithred o ddefnyddio pwmp gan y teimlwyd bod y pwmp ond yn cylchredeg dŵr ac nad oedd felly'n lleihau risg. Yn yr achos hwn, mae'n bosibl y byddai pwmp yn y lleoliad hwn wedi lleihau lefelau dŵr ar y ffordd, gan roi mwy o amser ar gyfer gosod yr amddiffynfeydd rhag llifogydd symudol.

Ni dderbyniodd y Swyddog Dyletswydd Rhybudd Llifogydd (FWDO) larwm 8.14m Bont Fawr o'r Ganolfan Cyfathrebu Digwyddiadau (ICC). Galwyd y larwm hwn am 8:51am.



Mae'r rôl yn y Ganolfan Cyfathrebu Digwyddiadau yn delio gyda'r delemetreg a'r llinell argyfwng. Ar 26 Rhagfyr, roedd y Ganolfan Cyfathrebu Digwyddiadau yn gweithredu ar rota shift un swyddog tu allan i oriau. Roedd y newid sydyn yn y rhagolygon yn golygu nad oedd amser i'r Ganolfan Cyfathrebu Digwyddiadau alw am adnoddau ychwanegol i ddelio gyda'r nifer cynyddol o larymau a galwadau. Yn anffodus, ni roddwyd sylw i'r larwm hwn ac ni throsglwyddwyd y wybodaeth i'r Swyddog Dyletswydd Rhybudd Llifogydd (FWDO) hyd yn d diweddarach y bore hwnnw.

Byddai derbyn y larwm hwn wedi golygu anfon rheolwr safle i Lanrwst a hefyd cwblhau'r rhestr wirio i ystyried a ddylid gosod yr amddiffynfeydd rhag llifogydd symudol yn Nheras Conwy. Ni wnaethpwyd hyn.

Am 9:50am, hysbyswyd y Swyddog Dyletswydd Rhybudd Llifogydd (FWDO) gan y Ganolfan Cyfathrebu Digwyddiadau bod lefelau'r afon ym Mhont Fawr yn uwch na lefel trothwy 8.14m a hefyd yn uwch na lefel trothwy 8.24m - pasiwyd y lefel hwn oddeutu 9:40am. Byddai pasio'r lefel hwn yn golygu bod yn rhaid cwblhau rhestr wirio i ystyried a ddylid gosod yr amddiffynfeydd rhag llifogydd symudol yn Nheras Conwy ynghyd â sefydlu'r blaen safle gorchymyn. Ni chwblhawyd y rhestr wirio gan nad oedd rheolwr safle yn bresennol ar y safle.

Am 10:10am, gwnaeth y Swyddog Dyletswydd Digwyddiad Llifogydd (FIDO) gais am anfon rheolwr safle i Lanrwst. Gan ei bod yn Wyl San Steffan, roedd llai o staff ar gael i ymateb ac nid oedd neb ar gael i fynd i'r safle hyd ganol dydd. O ganlyniad, roedd y staff dyletswydd yn dibynnu ar y mesurydd telemetreg ym Mhont Fawr ar gyfer gwneud penderfyniadau.

Am 10:26am, ceisiodd y Swyddog Dyletswydd Digwyddiad Llifogydd (FIDO) gysylltu â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i drefnu bod Blaen Safle Gorchymyn yn cael ei roi ar waith ac i drefnu bod y ffordd yn Nheras Conwy yn cael ei chau dros dro. Methodd y Swyddog Dyletswydd Digwyddiad Llifogydd (FIDO) gysylltu â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Dros yr awr nesaf, ceisiodd gysylltu â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy bedair gwaith, heb lwyddiant.

Mae'r rhif a roddwyd i CNC ar gyfer cysylltu â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn un ar gyfer canolfan alw sy'n gyfleuster allan o oriau a rennir gyda Chyngor Gwynedd. O drafod yr achos gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, deallir bod y ganolfan alw wedi'i llethu gan yr holl alwadau a dderbyniwyd yn sgil maint y digwyddiad a graddfa'r problemau yng Ngwynedd a Chonwy.

Ni agorwyd y blaen safle gorchymyn, ac o ganlyniad, nid oedd presenoldeb ar y safle o CNC na Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Ni roddwyd yr ymateb aml-asiantaeth i Ddyffryn Conwy ar waith ychwaith.

Roedd y methiant i gysylltu â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn golygu nad oedd modd cau ffyrdd a threfnu dargyfeiriadau; byddai hynny yn ei dro wedi galluogi CNC i osod yr amddiffynfeydd rhag llifogydd symudol. Yn ôl gweithdrefnau a phrotocolau CNC a



gytunwyd gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, mae'n rhaid cau ffyrdd cyn y gellir gosod amddiffynfeydd rhag llifogydd symudol.

Am oddeutu 10:45am, sylwodd staff gweithrediadau CNC ar eu ffordd i Drefriw bod llifddwr ar y ffordd ger Teras Conwy. Ysgogodd hyn alwad i aelod arall o'r tîm gweithrediadau yn gofyn am ddod a'r amddiffynfeydd rhag llifogydd symudol a'r allweddi i Lanrwst o ganolfan Tan Lan. Gan nad oedd rheolwr safle na Swyddog Cyswllt Efydd yn bresennol, dyma'r tro cyntaf i staff CNC fod yn Llanrwst. Rhoddodd aelod o'r cyhoedd hefyd wybod am y llifddwr drwy'r Ganolfan Gyfathrebu Digwyddiadau tua'r un amser.

Mae'r adroddiadau cyntaf yng nghofnodion swyddogion yn awgrymu bod Teras Conwy wedi dechrau dioddef llifogydd am 11:00am. Ar yr amser hwn, y darlenniad manwl ar fesurydd Bont Fawr oedd 8.5mAOD a'r darlenniad telemetreg oedd 8.337mAOD. Byddai hyn yn awgrymu bod darlenniadau o'r mesurydd a'r telemetreg safle i staff a ddefnyddiwyd gan swyddogion dyletswydd yn anghyson.

O ganlyniad, mae'n bosibl bod y triger 8.44mAOD y mae'n rhaid gosod yr amddiffynfeydd rhag llifogydd symudol yn Nheras Conwy wedi cael ei basio, er bod y mesurydd telemetreg wedi cyrraedd uchafbwynt o 8.369mAOD.

Am 11:15am, gofynnwyd i Staff Gweithrediadau CNC ddechrau gosod yr amddiffynfeydd rhag llifogydd symudol er nad oedd ffyrdd wedi'u cau. Dechreuodd hyn am 11:30am. Gosodwyd yr amddiffynfa rhag llifogydd symudol i gefn Rhif 1 Teras Conwy (maes parcio'r Cyfrifwyr) a dechreuwyd ar y gwaith o osod yr amddiffynfa ar draws Teras Conwy. Erbyn hyn, roedd dŵr sefyll ar linell yr amddiffynfeydd ac roedd llifogydd yn y 3 eiddo.

Cyhoeddwyd Neges Weithredol i hysbysu trigolion bod yr amddiffynfeydd rhag llifogydd symudol yn mynd i gael eu gosod.

Am 12:30am, gwnaethpwyd penderfyniad i roi'r gorau i osod yr amddiffynfeydd rhag llifogydd symudol yn Nheras Conwy gan fod lefel Afon Conwy wedi cyrraedd ei uchafbwynt.

Ni chyhoeddwyd Rhybudd Llifogydd i Lanrwst.

Llwyddwyd i gael gafael ar bympiau am 12:00 ac am 12:45pm gosodwyd pwmp yng Nghartref y Borth i helpu gwaredu dŵr.



## Casgliad

Un elfen yn unig yw'r amddiffynfeydd rhag llifogydd symudol yn Llanrwst mewn cynllun cymhleth a elwir yn Gynllun Lliniaru Llifogydd Dyffryn Conwy.

Yn ystod digwyddiad Gŵyl San Steffan, perfformiodd rhan Llanrwst y cynllun yn dda, gan amddiffyn hyd at 76 eiddo. Fodd bynnag, roedd problemau ynghylch gosod amddiffynfeydd rhag llifogydd symudol yn Nheras Conwy yn golygu bod llifogydd wedi amharu ar 3 eiddo. Roedd un eiddo (Rhif 1 Teras Conwy) wedi gosod amddiffynfa rhag llifogydd eu hunain wrth y drws ac fe rwystrodd hyn y llifogydd yno. Mae'n bosibl mai cyfuniad o ddraeniau gorlawn, dŵr wyneb a llifddwr o'r afon oedd tarddiad y llifogydd hyn.

Gan na dderbyniwyd y larwm telemetreg cyntaf i Bont Fawr, roedd dros awr wedi mynd heibio cyn bod swyddogion dyletswydd yn ymwybodol bod lefelau'r afon yn Llanrwst yn ddigon uchel i ystyried a ddylid gosod yr amddiffynfeydd rhag llifogydd symudol.

Roedd diffyg adnoddau gweithredol gan CNC (Rheolwr Efydd a Rheolwr Gweithrediadau Safle) yn Llanrwst yn golygu nad oedd modd dilyn gweithdrefnau gweithredol yn gywir. Roedd yr holl staff dyletswydd yn eu gwaith yn brysur yn delio gyda'r digwyddiad ar draws Gogledd Cymru ac nid oedd staff ychwanegol ar gael oherwydd ei bod yn gyfnod gwyliau. Nid oedd yn bosibl i'r unig staff ychwanegol oedd ar gael ar gyfer y rôl Rheolwr Efydd gyrraedd Llanrwst oherwydd y tarfu ar gludiant a bod ffyrdd ar gau ledled Gogledd Cymru.

Yn sgil natur eang y digwyddiad hwn, roedd gweithredwyr wrth gefn CNC yn delio gyda digwyddiadau eraill fel eiddo oedd eisoes wedi dioddef llifogydd ac ardaloedd lle roedd perygl i asedau a oedd yn amddiffyn cymunedau eraill fethu.

Roedd swyddogion dyletswydd yn dibynnu ar lefelau cychwyn i ddynodi pryd ddylid gosod yr amddiffynfeydd rhag llifogydd symudol, yn hytrach na gallu trafod gyda swyddog dynodedig yn y fan a'r lle. Mae problemau posibl gyda darlleniadau'r mesurydd ym Mhont Fawr yn awgrymu y gallai lefelau'r afon fod wedi bod yn uwch na'r hyn a ddisgwyliwyd gan swyddogion dyletswydd. Gan nad oedd swyddogion yn y fan a'r lle, nid oedd modd gwirio hyn â llaw.

Roedd tarddiad llifddwr arall fel dŵr wyneb a draeniau gorlawn yn gwaethygu'r broblem. Ni fyddai mesurydd yr afon wedi adnabod tarddiad y llifddwr.

Roedd methu cysylltu â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i gau'r ddwy briffordd (Teras Conwy a'r A470) yn golygu nad oedd modd gosod yr amddiffynfeydd yn unol â'r gweithdrefnau y cytunwyd arnynt. Nid oes gan CNC y Pwerau Cyfreithiol angenrheidiol i gau ffyrdd a threfnu dargyfeiriadau.





Er gwaethaf hyn, gwnaethpwyd y penderfyniad i ddechrau gosod yr amddiffynfeydd, beth bynnag oedd sefyllfa'r ffordd, ond erbyn hyn, roedd yn rhy hwyr. Pe bai lefelau'r afon yn parhau i godi, byddai'r gwaith o osod yr amddiffynfeydd wedi parhau, a byddai'r cynllun wedi'i weithredu'n llawn.

Roedd cyfuniad o ffactorau, yn hytrach nag un ffactor penodol, yn golygu na fu modd gosod yr amddiffynfeydd rhag llifogydd symudol ar draws Teras Conwy mewn da bryd.

## Argymhellion & Gwersi a Ddysgwyd

1. Ymchwilio'r gweithdrefnau trin galwadau a'r system larwm telemetreg i adnabod problemau posibl o ran derbyn/trin larymau lefelau afon.
2. Adolygu lefelau trothwy ar gyfer Hysbysiadau, Rhybuddion ac ymateb gweithredol.
3. Adolygu'r angen i osod pwmp yng Nghartref y Borth gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru (NMWTRA).
4. Adolygu cywirdeb mesurydd Bont Fawr ac ystyried gosod ail fesurydd.
5. Adolygu ymateb gweithredol – a oes angen rhoi mesurau tymor byr ar waith tra bod yr ymchwiliad yn parhau.
6. Dyblu rotas dyletswydd yn ystod gwyliau cyhoeddus pan fydd yn debygol y bydd canfod swyddogion ychwanegol ar fyr rybudd yn anodd.
7. Ymchwilio i'r posibilrwydd o Wardeniaid Llifogydd yn darparu adborth i'r ystafell argyfwng ar amodau ar y safle yn enwedig pan nad oes gan CNC bresenoldeb ar y safle.
8. Adolygu'r posibilrwydd o symleiddio'r weithdrefn a'r rhestrau gwirio ar gyfer gosod amddiffynfeydd rhag llifogydd symudol Teras Conwy, a'u gosod yn seiliedig ar lefel cychwyn penodol, neu ar sail bod yn rhagofalus – gallai hyn olygu y byddent yn cael eu gosod ar adegau yn ddiangen.
9. Fel arall, adolygu'r posibilrwydd bod gosod yr amddiffynfeydd rhag llifogydd symudol yn cael ei reoli gan Reolwr Safle sy'n bresennol ar y safle o adeg gynharach yn y digwyddiad. Byddai modd wedyn gwneud penderfyniad ynghylch pryd i osod yr amddiffynfeydd yn seiliedig ar yr amodau ar y safle a rhagolygon ynghylch lefelau'r afon.
10. Gan weithio gyda'r Swyddfa Dywydd, parhau i adolygu a gwella perfformiad modelau rhagfynegi glawiad rhifiadol y Swyddfa Dywydd sy'n cael eu defnyddio fel mewnbynnau yn ein modelau rhagfynegi llifogydd.
11. Angen mwy o ymarferion hyfforddi – i gynnwys partneriaid proffesiynol.
12. Ymchwilio i'r posibilrwydd o ddarparu IPP i eiddo eraill yn Nheras Conwy i'w ddefnyddio fel y gwneir gan Rif 1 ar hyn o bryd. Byddai hyn hefyd yn lleihau'r posibilrwydd o lifogydd o ffynonellau eraill fel draeniau gorlawn a dŵr wyneb.
13. Ymchwilio i'r posibilrwydd o osod camerâu cylch cyfyng i gael gwell dealltwriaeth o amodau ar y safle i swyddogion dyletswydd yn yr ystafell argyfwng.
14. Fel blaenoriaeth, adolygu sianeli cyfathrebu gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.



15. Fel blaenoriaeth, adolygu'r trefniadau ar gyfer cau'r ffyrdd mewn cydweithrediad â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru (NMWTRA) / Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru.
16. Gan fod rhai o'r problemau yn ymwneud â dŵr wyneb, ymchwilio i'r posibilrwydd bod Cyngor Conwy yn cael cyfrifoldeb am osod yr amddiffynfeydd rhag llifogydd symudol yn Nheras Conwy gan fod ganddynt hefyd y Pŵer Cyfreithiol i gau'r ffordd.
17. Gan fod rhai o'r problemau yn ymwneud â dŵr wyneb, ymchwilio i'r posibilrwydd bod NMWTRA yn cymeryd y cyfrifoldeb am osod yr amddiffynfeydd rhag llifogydd symudol ar yr A470. Bydd angen am Orchmynion Rheoli Traffic (TRO) sy'n rhoi'r pwêr i gau y briffordd. Bydd hyn angen cytundeb gan Lywodraeth Cymru ar ol cais gan NMWTRA. Llywodraeth Cymru yw'r Awdurdod Priffyrdd gyda NMWTRA yn asiant iddynt.
18. Ymchwilio i'r posibilrwydd o ddatblygu cynllun llifogydd cymunedol i lefel uwch lle mae CNC yn trosglwyddo cyfrifoldebau eraill i'r gymuned. Byddai hyn yn cynnwys monitro llifogydd yn lleol, hysbysu'r awdurdodau gweithredol o'r sefyllfa ar lawr gwlad ac efallai, hyd yn oed gosod yr amddiffynfeydd dros dro.



**Cyfoeth  
Naturiol**  
Cymru  
**Natural  
Resources**  
Wales

## Geirfa

**Ymatebwyr Categori 1** – dynodiad yn Neddf Argyfyngau Sifil 2004 i sefydliadau allweddol.

**FAS** – Cynllun Lliniaru Llifogydd.

**Canolfan Rhagolygon Llifogydd** - partneriaeth rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Swyddfa Dywydd, sy'n darparu gwasanaeth hydrometeoroleg arbenigol. Mae'r ganolfan yn darogan bob math o lifogydd naturiol - afonydd, dŵr wyneb, llanw/arfordiol a dŵr daear.

**Datganiad Darogan Llifogydd** – darparu gwybodaeth i ymatebwyr Categori 1 a 2 i'w helpu gyda'u penderfyniadau cynllunio a defnyddio adnoddau. Mae'n rhoi trosolwg o risg llifogydd i Loegr a Chymru dros bum niwrnod ac yn adnabod tywydd garw posibl, a allai achosi llifogydd gan amharu ar fywyd bob dydd arferol.

**Wardeniaid Llifogydd** – Aelodau penodol o'r gymuned sydd wedi'u hyfforddi i helpu gyda threfniadau a chyfathrebu yn ystod llifogydd.

**HRA – Rhybudd Glaw Trwm** – Rhybudd gan y Swyddfa Dywydd o lawiad sylweddol yn seiliedig ar Siroedd.

**ICC – Canolfan Cyfathrebu Digwyddiadau** – Canolfan Gyfathrebu 24 awr CNC

**mAOD – metrau uwchlaw Datwm Ordnans** – yr unedau mesur a ddefnyddir i fesur uchder yr afon

**NMWTRA** – Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru



Atodiad 1

**Tabl Crynodeb**

<b>Materion a Gododd</b>	<b>Gweithred</b>
1. Ni dderbyniodd Swyddogion Dyletswydd yr alwad larwm o'r Ganolfan Cyfathrebu Digwyddiadau	<ul style="list-style-type: none"><li>• Ymchwilio'r gweithdrefnau trin galwadau a'r system larwm telemetreg i adnabod problemau posibl o ran derbyn/trin larymau lefelau afon</li></ul>
2. Swyddogion dyletswydd ar gael fynd i'r safle	<ul style="list-style-type: none"><li>• Dyblu'r sawl sydd ar ddyletswydd dros wyliau cyhoeddus</li></ul>
3. Cyfathrebu â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	<ul style="list-style-type: none"><li>• Adolygu sianeli cyfathrebu gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy</li></ul>
4. Cau'r ffordd yn Nheras Conwy	<ul style="list-style-type: none"><li>• Adolygu'r trefniadau ar gyfer cau'r ffyrdd mewn cydweithrediad â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru (NMWTRA).</li></ul>
5. Heb weld bod llifogydd ar y safle	<ul style="list-style-type: none"><li>• Ymchwilio i'r posibilrwydd o osod camerâu cylch cyfyng ar y safle</li><li>• Gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, ystyried darparu IPP i eiddo eraill yn Nheras Conwy i leihau'r risg o lifogydd o ddŵr wyneb.</li><li>• Ystyried os/sut fyddai modd i Wardeniaid Llifogydd ddarparu adborth byw i swyddogion dyletswydd</li></ul>
6. Darlleniad yr offer monitro lefel yn anghyson	<ul style="list-style-type: none"><li>• Ystyried gosod mesurydd eilaidd ym Mhont Fawr i wella dibynadwyedd</li></ul>
7. Ymateb Gweithredol	<ul style="list-style-type: none"><li>• Adolygu hysbysiadau larwm y Gwasanaeth Rhybudd Llifogydd</li><li>• Adolygu'r protocol ar gyfer cau ffyrdd</li><li>• Adolygu ac edrych am gyfleoedd i symleiddio Gweithdrefnau Gweithredu yn dilyn y gwaith o adolygu'r hysbysiadau</li><li>• Ystyried a fyddai modd i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy neu Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru (NMWTRA) gynorthwyo gyda'r gwaith o osod amddiffynfeydd rag llifogydd symudol yn Nheras Conwy yn y dyfodol</li><li>• Trafod opsiynau ar gyfer ymarferion ar y cyd gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru</li></ul>



	(NMWTRA) yn Llanrwst
8. Model Darogan Llifogydd Conwy	<ul style="list-style-type: none"><li>Gweithio gyda'r Swyddfa Dywydd i wella perfformiad modelau rhagfynegi glawriad rhifiadol y Swyddfa Dywydd sy'n bwydo i mewn i'n modelau rhagfynegi llifogydd.</li></ul>
9. Cynllun Llifogydd Cymunedol	<ul style="list-style-type: none"><li>Ystyried datblygu cynllun llifogydd cymunedol manwl</li></ul>

## Atodiad 2 – Argymhellion – Statws cynnydd

### Allwedd i Dabl 1

#### TABL CYNNYDD

<b>4</b>	<b>Argymhellion wedi'u Cyflawni</b>
<b>17</b>	<b>Argymhellion ar y gweill</b>
<b>3</b>	<b>Argymhellion nad ydynt ar y gweill</b>

Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r Gyfarwyddiaeth/Arweinydd Cenedlaethol

Acronymau:

CNC – Cyfoeth Naturiol Cymru

CCBC – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

NMWTRA – Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

NWC-REPS – Gwasanaeth Cynllunio Brys Rhanbarthol Cyngorau Gogledd Cymru

NWP – Heddlu Gogledd Cymru



**Cyfoeth  
Naturiol**  
Cymru  
**Natural  
Resources**  
Wales

**GADAWYD Y DUDALEN YN WAG YN FWRIADOL**

Rhif Arg	Statws	Argymhelliad	Diweddariad	Arwain i Wireddu	Erbyn Pryd
1a		Ymchwilio'r gweithdrefnau trin galwadau a'r system larwm telemetreg i adnabod problemau posibl o ran derbyn/trin larymau lefelau afon	Aros am Adolygiad Telemetreg fel rhan o Adolygiad Ardal Fusnes CNC	Cenedlaethol	Gwanwyn 2017
1b		Ymchwilio i sicrhau bod larymau a gweithdrefnau telemetreg yn cyd-fynd	Adolygiad ar y gweill	Cyfarwyddiaeth	Haf 2016
2a		Adolygu lefelau trothwy ar gyfer Hysbysiadau Llifogydd, Rhybuddion Llifogydd a Negeseuon Gweithredol ym mhob un o'r pedair ardal rhybudd llifogydd	Gwaith wedi cychwyn	Cyfarwyddiaeth	Haf 2016
2b		Symleiddio Hysbysiadau Llifogydd e.e. seiliedig ar drothwy/yn awtomatig ac ati	Papur opsiynau wedi'i ddatblygu a'i gadarnhau ar gyfer Gweithredu'n Genedlaethol	Cyfarwyddiaeth /Cenedlaethol	Haf 2017
3		Adolygu'r angen i osod pwmp yng Nghartref y Borth gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru NMWTRA	Pwmp wedi'i adolygu, CNC i'w gyflenwi	Cyfarwyddiaeth	Cyflawn
4		Adolygu cywirdeb mesurydd Bont Fawr ac ystyried gosod ail fesurydd	Cyfarfod wedi'i gyfarfod gyda NMWTRA	Cyfarwyddiaeth	Gaeaf 2016/17
5		Arolygu proffil gwely'r afon i fyny'r afon o Bont Fawr	Bwydo i mewn i adolygiad model Dyffryn Conwy	Cyfarwyddiaeth	Gwanwyn 2017
6		Adolygu ymateb gweithredol – rhoi mesurau tymor byr ar waith tra bod yr ymchwiliad yn parhau	Swyddogion dyletswydd yn cael eu cadarnhau erbyn Hydref	Cyfarwyddiaeth	Hydref 2016



Rhif Arg	Statws	Argymhelliad	Diweddariad	Arwain i Wireddu	Erbyn Pryd
7		Adolygu cadernid rotas dyletswydd	Cais am eglurhad pellach ar gwmpas	Cyfarwyddiaeth	Haf 2016
8		Ymchwilio i'r defnydd o Wardeniaid Llifogydd yn darparu adborth i'r ystafell argyfwng ar amodau ar y safle gan gefnogi CNC	Nid yw o fewn rolau a chyfrifoldebau presennol Wardeniaid Llifogydd. I'w godi ar lefel Genedlaethol	Cyfarwyddiaeth /Cenedlaethol	I'w gadarnhau
9		Adolygu'r trefniadau a'r rhestrau gwirio ar gyfer gosod amddiffynfeydd rhag llifogydd symudol yn Nheras Conwy	Adolygwyd, dim newid	Cyfarwyddiaeth	Cyflawn
10		Adolygu perfformiad model darogan llifogydd CNC, gan gynnwys ansawdd data darogan glawiad y Swyddfa Dywydd sy'n cael ei ddefnyddio fel mewnbwn	Tîm Darogan Llifogydd Cenedlaethol yn ymchwilio	Cyfarwyddiaeth /Cenedlaethol	Gaeaf 2016/17
11		Angen hyfforddiant/ymarferion i Swyddogion Dyletswydd – i gynnwys partneriaid proffesiynol. Angen bod yn gyfarwydd gyda gweithdrefnau gweithredol y ddau sefydliad.	Holl weithdrefnau swyddogion dyletswydd i'w diweddarau cyn bod modd cychwyn ar yr hyfforddiant/ymarferion	Cyfarwyddiaeth	Gaeaf 2016/17
12		Ymchwilio i'r posibilrwydd o ddarparu PLP i eiddo eraill yn Nheras Conwy i'w ddefnyddio fel y gwneir gan Rif 1.	Wedi'i godi yn ystod Grŵp Partneriaeth Llifogydd Dyffryn Conwy, a'r grŵp yn cadarnhau y bydd PLP yn cael ei ddarparu i'r eiddo. Aros am gadarnhad Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy bod yr offer wedi cyrraedd	Cyfarwyddiaeth /Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	Haf 2016





Rhif Arg	Statws	Argymhelliad	Diweddariad	Arwain i Wireddu	Erbyn Pryd
13		Ymchwilio i'r posibilrwydd o osod camerâu cylch cyfyng ar y safle yn Llanrwst i gael gwell dealltwriaeth o amodau ar y safle	Cyfathrebu wedi dechrau rhwng CNC/CCBC a NMWTRA	Cyfarwyddiaeth	Haf 2016
14		Adolygu sianeli cyfathrebu rhwng CNC a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	Trafodaethau ar y gweill	Cyfarwyddiaeth / Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	Haf 2016
15		Adolygu'r trefniadau ar gyfer cau'r ffyrdd mewn cydweithrediad â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru NMWTRA.	Cyfarfod i'w drefnu gyda phartïon perthnasol	Cyfarwyddiaeth / Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy /NMWTRA/NWP	Gaeaf 2016/17
16		Ymchwilio opsiynau i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy osod yr amddiffynfeydd rhag llifogydd symudol yn Nheras Conwy	Cyfarfod i'w gynnal gyda CCBC	Cyfarwyddiaeth / Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	Gaeaf 2016/17
17		Ymchwilio opsiynau i Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru (NaMWTRA) osod yr amddiffynfeydd rhag llifogydd symudol ar yr A470	Cyfarfod i'w gynnal gyda NMWTRA	Cyfarwyddiaeth /NMWTRA	Gaeaf 2016/17
18		Ymchwilio i ddatblygiad cynllun llifogydd cymunedol i lefel uwch lle mae CNC yn trosglwyddo rhai cyfrifoldebau ymateb i lifogydd i'r gymuned	Byddai'n rhaid ystyried a chytuno ar hyn ar lefel Genedlaethol gan nad yw o fewn rôl a chyfrifoldeb warden llifogydd ar hyn o bryd	Cyfarwyddiaeth /Cenedlaethol	I'w gadarnhau
19		Adolygu Datganiad Darogan Llifogydd Telecons	Wedi'i wella a'i ymgorffori o fewn gweithdrefnau swyddogion dyletswydd	Cyfarwyddiaeth	Cyflawn



Rhif Arg	Statws	Argymhelliad	Diweddariad	Arwain i Wireddu	Erbyn Pryd
20		Adolygu'r cynlluniau llifogydd amrywiol (e.e. Cynllun Llifogydd Dyffryn Conwy / Cynllun Blaen Safle Gorchymyn Gogledd Cymru / Cynllun Llifogydd Aml Asiantaeth)	Cynllun Llifogydd Dyffryn Conwy – Dan berchnogaeth NWC-REPS Cynllun Llifogydd Aml Asiantaeth – Dan berchnogaeth Fforwm Cadernid Lleol Gogledd Cymru Cynllun Blaen Safle Gorchymyn – Dan berchnogaeth Fforwm Cadernid Lleol Gogledd Cymru  Cyfarfodydd wedi digwydd a'r holl gynlluniau i gael eu hadolygu	NWC-REPS  CNC  NWP	Gwanwyn 2017
21		Adolygu trefniadau ar gyfer y Blaen Safle Gorchymyn (Efydd) yng Nglastir	Adolygiad wedi digwydd, dim angen newidiadau	Cyfarwyddiaeth	Cyflawn
22		Cyngor Tref Llanrwst i arwain ar gynhyrchu Cynllun Llifogydd Cymunedol a recriwtio wardeniaid llifogydd	Wedi derbyn gwahoddiad i fynychu cyfarfod nesaf Cyngor y Dref	Cyfarwyddiaeth	I'w gadarnhau